Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Wdig

**Hill Street**
**Wdig**
**Sir Benfro**
**SA64 0ET**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Wdig

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Wdig |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 135 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 101 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 20 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 11.2% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 22.2%) | 38.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/09/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 18/12/2012 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r disgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol yn fawr iawn. Y prif reswm am hyn yw bod ganddynt berthynas gadarnhaol â'u hathrawon a staff eraill, sy'n helpu i sefydlu awyrgylch dymunol o amgylch yr ysgol.

Mae'r addysgu'n llwyddiannus, ac mae amgylchedd yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu buddiol. Mae’r ardaloedd dysgu, naill ai yn yr awyr agored neu yn yr adeilad, yn ysgogol a mentrus. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac o’r herwydd, maent yn cyflawni’n dda o’u mannau cychwyn. Ar adegau, mae cyflymder yr addysgu yn araf, sy’n llesterio brwdfrydedd ac awydd y disgyblion i gychwyn ar eu gwaith.

Mae'r holl staff yn llwyddo i hyrwyddo ethos o gymorth a gofal i ddisgyblion, sy'n eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a'u hymddygiad. Mae hyn yn cyfrannu at eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu a’u gwydnwch i weithio’n annibynnol yn bwrpasol. Yn ogystal, mae’r ysgol yn arwain disgyblion yn fwriadus tuag at fagu hyder yn eu hunaniaeth, gan hefyd ddatblygu parch cryf tuag at deimladau eraill. Mae disgyblion yn datgan yn agored eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yng nghwmni ei gilydd. Maent yn ymfalchïo yn y ffaith bod y staff yn eu hannog i gofleidio’u hapusrwydd i gyfoethogi eu bywydau.

Mae athrawon yn gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae'r disgyblion am ddysgu amdano. Maent yn cyfuno'r syniadau a'r diddordebau hyn â gwersi diddorol, sy'n annog disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae medrau llythrennedd disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn y Gymraeg a’r Saesneg, ac mae llawer yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal, mae medrau rhifedd disgyblion yn datblygu’n dda. Fodd bynnag, nid yw’r athrawon yn cynllunio gweithgareddau’n ddigon systematig er mwyn hybu a datblygu medrau digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth yn benderfynol i lwyddo er lles y disgyblion a'r gymuned. O ganlyniad, mae'r holl staff a’r llywodraethwyr yn gweithio'n ddiwyd gyda'i gilydd, ac mae'r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau'n ddeallus ymysg y staff. Mae’r uwch dîm rheoli yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i staff. Mae hyn yn cefnogi ethos ysgol gyfan llewyrchus, lle mae'r staff yn teimlo eu bod nhw’n cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau cydwybodol i fywyd yr ysgol.

Mae’r arweinwyr yn hunanwerthuso gwaith yr ysgol yn drylwyr i gynllunio ar gyfer gwelliannau. Mae hon yn broses fanwl ac mae'r targedau hylaw yn ffocysu’n gywir a dibynadwy ar wella’r ddarpariaeth er mwyn gwella dysgu’r disgyblion.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol yn annibynnol ar draws y cwricwlwm.

A2 Sicrhau bod cyflymder y gwersi yn effeithiol ac yn gyson ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy'n is na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoed. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg ar fynediad i'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac maent yn gwneud cynnydd da erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ym mhob maes dysgu erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn datblygu medrau gwrando da. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac ymateb i gwestiynau yn bwrpasol. Wrth symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn parchu safbwyntiau eraill ac yn gwrando'n aeddfed ar gyflwyniadau ei gilydd. Er enghraifft, maent yn gwrando'n dda ar gyfoedion wrth iddynt esbonio sut i greu gwefan yn hyrwyddo Wdig fel cyrchfan wyliau.

Mae mwyafrif y disgyblion iau yn caffael yr iaith Gymraeg yn gynnar iawn. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, maent yn datblygu eu geirfa yn briodol ac yn defnyddio ymadroddion newydd gyda hyder cynyddol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n fwriadus gyda'i gilydd gan ddefnyddio geirfa addas a phatrymau iaith cyfarwydd i fynegi eu teimladau. Yn ystod eu taith trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, maent yn cyfathrebu'n aeddfed yn y ddwy iaith at ddibenion gwahanol. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus gydag oedolion cyfarwydd ac ymwelwyr i'r ysgol, fel cyfweld â'r meddyg lleol am ei gwaith fel rhan o'r thema 'Y Corff Campus'.

Mae medrau darllen llawer o'r disgyblion yn y dosbarth meithrin a derbyn yn datblygu'n dda. Maent yn trafod cynnwys storïau yn synhwyrol ac yn ymateb yn frwd wrth drafod cymeriadau 'Jac a'r Goeden Ffa'. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn datblygu'n effeithiol, ac erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r plant hŷn yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith. Maent yn darllen ar goedd gyda mynegiant, yn rhoi sylw i atalnodi ac yn amrywio goslef a llais yn llwyddiannus. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau darllen yn llwyddiannus i ymchwilio'n bwrpasol i themâu'r dosbarth. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion yn cywain a chyflwyno gwybodaeth yn llwyddiannus wrth ymchwilio'n annibynnol i gylch bywyd gwenyn.

Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cofnodi eu gwaith yn ddestlus ac yn arddangos balchder amlwg yn eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol ac yn gwneud marciau'n hyderus gyda phaent a chreonau yn y stondin sgriblo. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn dechrau ysgrifennu'n bwrpasol gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion soffistigedig yn eu gwaith. Mae llawer ohonynt yn atalnodi eu gwaith yn bwrpasol, er enghraifft wrth ail-greu'r stori, 'Y Teigr a ddaeth i De'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion rhwng Blwyddyn 3 a Blwyddyn 6 yn ysgrifennu'n llwyddiannus at wahanol ddibenion, ar draws y cwricwlwm, yn y ddwy iaith. Enghraifft dda o hyn yw ysgrifennu llythyr o berswâd at gadeirydd y llywodraethwyr yn gofyn am ganiatâd i fynd ar ymweliad i Ganolfan Eifftaidd yn Abertawe. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn synhwyrol gan ddefnyddio dilyniant cronolegol, cysyllteiriau a iaith ddisgrifiadol gyfoethog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae llawer o ddisgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae dealltwriaeth llawer o werth rhif yn datblygu'n gadarn ac maent yn llwyddo i gymhwyso'u dealltwriaeth yn fwriadus ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion yn defnyddio unedau safonol i bwyso ffrwythau ar glorian digidol yn siop fferm y dosbarth. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn gwneud cynnydd da â'u medrau rhifedd. Maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth o waith rhif a siâp ac yn defnyddio data'n fedrus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn datrys problemau bywyd go iawn fel defnyddio graddfa i benderfynu ar bris tanwydd a phlygu pibellau i fesur llwybr ar fap.

Er bod ansawdd y cynllunio er mwyn datblygu medrau digidol yn anghyson o un dosbarth i'r llall, ar y cyfan, mae medrau digidol disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn creu a dehongli graff bloc yn annibynnol i adlewyrchu sut maent yn teithio i'r ysgol. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio medrau digidol bwriadus ar draws y cwricwlwm, fel codio yn annibynnol i greu gêm taro.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i arbrofi ag amryw o gyfryngau ac i efelychu technegau artistiaid wrth ddatblygu eu medrau celf. Enghraifft dda o hyn yw'r disgyblion hŷn yn defnyddio arddull arlunydd lleol yn llwyddiannus i arlunio tirnodau cyfarwydd yn y gymuned leol. Yn ogystal, maent yn gwerthuso amrywiaeth o gerddoriaeth yn hyderus trwy wrando ar gerddoriaeth clasurol fel 'Flight of the Bumble Bee'.

Mae medrau meddwl y rhan fwyaf o ddisgyblion yn aeddfed. Maent yn deall yn gynyddol sut i wella'u dysgu a'u gwaith er mwyn llwyddo a gwneud eu gorau. Enghreifftiau da o hyn yw'r defnydd o'r strategaeth 'Pwll Dysgu' sy'n annog disgyblion i fyfyrio ac i feddwl yn gadarhaol am eu dysgu.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn dangos balchder a chariad am eu hysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel o fewn ethos cynhwysol a theuluol yr ysgol, sy'n rhan annatod o weledigaeth y pennaeth a'r staff. Trwy'r gwerthoedd a'r moesau cytûn, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi bod oedolion yn eu parchu a'u trin yn deg, sy'n cyfrannu'n gadarn at ddatblygu perthynas waith agos sydd wedi'i seilio ar barch ac ymddiriedaeth.

Mae'r disgyblion yn gwrtais a pharchus wrth symud yn bwyllog o gwmpas yr ysgol. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn y dosbarthiadau ac maent yn ofalgar iawn o'i gilydd. Yn ogystal, mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw ei hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch bod oedolion yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt. Mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn barod i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau, a chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion sy’n aelodau o bwyllgorau amrywiol fel Senedd Ysgol a Chymuned, Senedd Iechyd a Lles a’r Senedd Eco yn gwneud cyfraniadau effeithiol i fywyd dyddiol yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau’r Criw Cymraeg yn gwobrwyo disgyblion am siarad Cymraeg gyda cherrig er mwyn llenwi jar dosbarth. Pan fydd y jar yn llawn, mae’r dosbarth yn cael gwobr arbennig fel tocynnau i'r sinema.

Mae gan y rhan fwyaf o’r disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando’n dda ar gyfarwyddiadau’r athrawon ac yn canolbwyntio’n ddiwyd ar eu gwaith yn ystod gwersi. Mae llawer yn ddysgwyr brwdfrydig, sy’n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Mae bron bob disgybl yn cydweithio’n gydwybodol gyda’i ffrindiau ac oedolion, gan gynnig cymorth i’w gilydd o’u gwirfodd.

Mae bron bob disgybl yn canolbwyntio’n gyson am gyfnodau estynedig. Maent yn dangos parch at eu gwaith, a gwydnwch a chymhelliant yn yr hyn a ddysgir. Maent yn cydweithio â’u cyfoedion mewn parau neu grwpiau i ddatrys problemau heb gefnogaeth oedolion, er enghraifft wrth ddefnyddio strategaeth ‘Tri cyn Fi’. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu’n  ddysgwyr annibynnol ac mae llawer yn hyderus wrth drin a thrafod eu gwaith, ac maent yn barod i wrando ar farn a syniadau eraill yn effeithiol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn aeddfedu i fod yn unigolion iach a hyderus, ac yn deall sut i wneud dewisiadau cywir mewn perthynas â diet a gweithgarwch corfforol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, mae'r disgyblion yn cynllunio diet addas i driathletwr lleol er mwyn iddo nofio, rhedeg a beicio'n gryf wrth baratoi ar gyfer cystadleuaeth Triathlon Cymru. Ar draws yr ysgol, mae bron bob un disgybl yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gwersi ffitrwydd dyddiol fel milltir y dydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio yng ngweithgareddau lles allgyrsiol yr ysgol, fel y Clwb Lles wythnosol. Yn ogystal, mae defnydd disgyblion o'r corneli lles yn eu dosbarthiadau yn hyrwyddo eu hiechyd emosiynol yn effeithiol. O ganlyniad, mae bron bob dysgwr yn ymwybodol o sut i wneud penderfyniadau sy’n gofalu am eu hiechyd meddwl. Enghreifftiau da iawn o hyn yw’r defnydd o gymeriad ‘Y Bwystfil Becso’ ac ymweliad wythnosol gan Betsi y ci ysgol, i gefnogi disgyblion bregus gyda’u darllen.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol trwy eu hymwybyddiaeth o’r gwerthoedd sy’n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Mae'r disgyblion hŷn yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb fel rhan o’u gwaith ar hawliau plant. Mae bron bob disgybl yn dysgu gwerthoedd cefnogi eraill yn llwyddiannus ac maent yn awyddus i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent wedi codi swm sylweddol o arian ar gyfer plant Wcrain trwy wisgo  mewn glas a melyn. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r athrawon yn cynllunio ystod a dyfnder o brofiadau difyr, yn unol â’r Cwricwlwm i Gymru, sy'n ysgogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Mae cynllunio profiadau yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion ac yn hyrwyddo eu dysgu annibynnol yn fwriadus.

Mae’r athrawon yn cydweithio’n gynhyrchiol i ddatblygu cwricwlwm diddorol sy'n cefnogi disgyblion i gyflawni'n dda. Er enghraifft, ar draws yr ysgol, mae cynefin y disgyblion yn cael sylw blaengar, fel astudiaethau Blwyddyn 5 ar gromlech o oes y cerrig mewn pentref cyfagos. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn cael profiadau effeithiol i ddefnyddio geirfa ddychmygus wrth ddisgrifio ôl traed cawr yn dilyn ei ymweliad ffug i’r ysgol.

Mae’r athrawon yn annog disgyblion i gyfrannu eu barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn dda trwy ddefnyddio mapiau meddwl. Maent yn cymryd sylw o awgrymiadau disgyblion yn synhwyrol wrth gynllunio’n drawsgwricwlaidd. Maent yn croesawu'r safbwyntiau hyn ac yn eu defnyddio'n ddeallus fel rhan o brofiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae Blwyddyn 4 wedi ymweld ag amgueddfa i astudio’r Eifftiaid yn Abertawe, yn dilyn awgrymiadau’r dosbarth. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn rhannu eu profiadau'n eiddgar gydag eraill, gan fod eu dysgu yn berthnasol i’w diddordebau.

Mae addysgu’r athrawon a’r cymorthyddion yn gadarn a chaiff disgyblion brofiadau cynhwysfawr i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, mae cyfleoedd heriol ar gael i ddisgyblion y dosbarth meithrin  werthu blodau i’w gilydd yn ei siop flodau. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn ysgrifennu pamffledi i berswadio’r cyhoedd i gefnogi triathlon Abergwaun. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu eu medrau digidol yn annibynnol ar draws y cwricwlwm wrth iddynt symud o un flwyddyn i’r llall.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lles a'u hunaniaeth yn llwyddiannus. Mae’r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i ddigwyddiadau byd-eang ac amrywiaeth y byd, fel rôl y mathemategydd Katherine Johnson yng nghlaniadau’r lleuad. Yn ogystal, mae’r cynllunio yn adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn llwyddiannus ac mae’r holl staff yn hyrwyddo manteision  dysgu Cymraeg yn fwriadus.

Mae'r berthynas broffesiynol rhwng staff a disgyblion yn gryf. Mae'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn darparu gweithgareddau sydd wedi'u teilwra'n bwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion, sy’n cynnwys y rhai sydd angen cymorth â’u gwaith. Mae’r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth werthfawr i'r disgyblion hyn, gan wybod pryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu i'r disgybl ddyfalbarhau'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o wersi'n symud yn gyflym, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. Fodd bynnag, ar adegau, mae cyflymder yr addysgu yn araf ac mae gormod o amser yn cael ei dreulio yn trafod y tasgau. O

ganlyniad, mae hyn yn llesteirio brwdfrydedd ac awydd y disgyblion i gychwyn ar eu gwaith.

Mae'r athrawon yn defnyddio gweithgareddau asesu ac arferion i ymateb i waith disgyblion yn bwrpasol yn ystod gwersi. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae'r athrawon yn rhannu adborth yn fedrus ar lafar i herio ac asesu ansawdd dysgu’r disgyblion, ac i dargedu unrhyw ddifaterwch neu waith anghywir yn brydlon. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae’r staff yn herio’r plant i sicrhau bod eu canfyddiadau, ar ôl iddynt gyfatebu canrannau a ffracsiynau, yn gywir. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerth chweil i ymateb i adborth a sylwadau ysgrifenedig eu hathrawon, fel pan fydd yr athro yn gofyn iddynt nodi'r camau nesaf yn eu dysgu eu hunain. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r rhieni a gofalwyr yn derbyn adroddiadau blynyddol cynhwysfawr am gynnydd eu plentyn.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu bywiog a diddorol lle mae pob twll a chornel yn cael ei ddefnyddio'n llewyrchus i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae’r staff ar draws yr ysgol yn creu mannau deniadol y tu mewn i'r adeilad i ysgogi’r disgyblion, fel ardal plannu hadau yn y dosbarth meithrin. Mae'r staff yn defnyddio'r mannau awyr agored sydd ar gael yn helaeth, lle mae cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion wneud dewisiadau ynghylch â beth a sut maent yn dewis dysgu. Mae hyn yn cynnwys chwarae rôl ar gwch pren ac ymchwilio i fywydau a chyrff gwenyn. Yn ogystal, mae'r staff yn gwneud defnydd buddiol o'r coetir a’r amffitheatr ar gae’r ysgol i ehangu dysgu'r disgyblion ymhellach. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso’u medrau mewn sefyllfaoedd ymarferol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, ac mae ei hethos yn gynnes a chyfeillgar. Mae perthnasoedd cadarnhaol yn nodwedd gref rhwng staff a disgyblion ac ymhlith y disgyblion eu hunain. Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn dwymgalon i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu hapusrwydd a'u lles. Mae ymagweddau’r staff a'r awyrgylch bositif yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n hawdd ym mywyd yr ysgol. Datblygodd hyn ymhellach yn ystod y pandemig, ac mae’r arferion buddiol a wreiddiwyd yn annog disgyblion i feithrin agweddau gwydn tuag at ddysgu.

Mae gan yr ysgol system gynhwysfawr i gasglu gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae’r athrawon yn defnyddio'r system olrhain i fonitro cynnydd disgyblion yn eu dosbarthiadau yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r staff yn asesu cyflawniadau disgyblion a'u lles yn bwrpasol, sy'n golygu bod athrawon yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion pob disgybl. Pan fydd staff yn nodi materion i’w gwella, mae'r ysgol yn darparu cymorth ac ymyraethau gwerthfawr i wella dysgu disgyblion a'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r ystod eang o raglenni ymyrraeth i wella medrau siarad a darllen disgyblion yn strwythuredig ac yn effeithiol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. O ganlyniad, mae bron bob disgybl a dargedir yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae sesiynau ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar les disgyblion yn effeithiol ac maent yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gwersi yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfoethogi eu hunan-barch a'u

medrau cymdeithasol, ac mae'n eu galluogi i rannu eu teimladau â'i gilydd yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth arbenigol i ddisgyblion. Maent yn cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol yn llwyddianus. Er enghraifft, mae'r cydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol wedi gweithio'n agos gydag ysgolion lleol trwy eu grŵp cydgysylltwyr. Mae hyn yn arwain at gymorth gwerthfawr i staff ddeall eu rolau newidiol wrth gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth ofalgar a chynhwysol.

Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Mae'r rhain yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu ac maent yn cynnwys, er enghraifft, teithiau i barc gwledig cyfagos am ddiwrnod iechyd a lles a'r harbwr lleol. Yn ogystal, mae astudiaethau o drychinebau byd eang, fel y rhyfel yn Wcrain, yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch a'r hawl i fod yn rhydd rhag aflonyddwch. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i fedrau cymdeithasol a dealltwriaeth ddiwylliannol disgyblion. Yn ogystal, mae cyfleoedd pwrpasol ar gael i ddathlu treftadaeth a diwylliant Cymru, sy'n cynnwys hanesion lleol, fel glaniad y Ffrancod ar lannau Sir Benfro ym 1797, a rôl yr arwres Jemima Nicholas yn yr helynt.

Mae'r ysgol yn cyflwyno gwersi synhwyrol sy'n archwilio hawliau dynol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Elfen gadarnhaol o'r gwersi yw eu bod yn annog trafodaethau gan ddisgyblion, sy'n datblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r dulliau blaengar a strwythuredig hyn mewn gwersi personol a chymdeithasol yn cynnwys cyfleoedd i archwilio materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o bob rhan o'r byd.

Mae'r staff yn sicrhau bod lles a diogelwch disgyblion yn rhan annatod o fywyd yr ysgol ac maent ar flaen y gad o ran eu cyfrifoldebau dyddiol. O ganlyniad, mae'r diwylliant diogelu yn gadarn, ac mae'r holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth gyfrannu'n fwriadus at ddiogelwch a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu pwysigrwydd cadw'n ddiogel. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio asiantaethau fel yr heddlu i dynnu sylw disgyblion at beryglon camddefnyddio sylweddau a'u haddysgu am reolau diogelwch ar y rhyngrwyd. Yn ogystal, caiff unrhyw absenoldebau parhaus eu monitro yn drwyadl, ac mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o fwlio honedig yn dda. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn angerddol am yr ysgol a'r gymuned, ac mae'n gosod lles disgyblion a'u teuluoedd wrth wraidd ei weledigaeth. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ei athroniaeth ac mae'r holl staff yn gweithredu'n ddiwyd ar ddisgwyliadau'r arweinwyr ac yn gwneud eu gorau dros y disgyblion. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod awyrgylch gofalgar a chynhwysol yn treiddio trwy'r ysgol, ac mae'r holl staff yn ymfalchïo yn arwyddair yr ysgol, 'Dyro dy law i ni ac fe awn i ben y mynydd'. Mae hyn

yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau’r disgyblion at ddysgu, eu gofal tuag at ei gilydd a'u hymddygiad cadarnhaol.

Mae’r trefniadau i ddosbarthu rolau arwain ac i ddwyn staff i gyfrif am ansawdd ac effaith eu gwaith yn bwrpasol ac yn deillio o arferion rheoli perfformiad trwyadl. Mae’r arweinwyr yn canolbwyntio ar fireinio ansawdd yr addysgu ac i ymgorffori dealltwriaeth gyffredin o werthoedd proffesiynol ymhlith y staff. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Mae prosesau'r arweinwyr ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn gadarn ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae’r systemau i wella ansawdd yn cynnwys archwilio llyfrau’r disgyblion, monitro’r addysgu a dadansoddi data sy’n mesur cynnydd disgyblion. Mae’r arweinwyr yn casglu barnau rhanddeiliaid eraill yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ystyried barnau rhieni a gofalwyr ac yn gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau yn synhwyrol, fel caniatáu i ddisgyblion fwyta iogwrt a ffyn bara yn ogystal â ffrwythau.

Mae gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a’r meysydd i'w datblygu. Mae'r cysylltiad rhwng y gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn gadarn. O ganlyniad, mae’r arweinwyr yn blaenoriaethu eu canfyddiadau'n effeithiol ac yn pennu targedau dibynadwy i symud yr ysgol ymlaen. Yn ogystal, mae’r arweinwyr wedi rhannu diwylliant diogelu'r ysgol yn effeithiol gyda'r holl staff.

Mae’r arweinwyr yn hyrwyddo arferion effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yn yfed yn iach ac yn cynghori rhieni a gofalwyr am bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu blychau bwyd. Mae’r arweinwyr wedi cadw mewn cysylltiad agos iawn â chymuned ehangach yr ysgol trwy gydol y pandemig. Maent wedi adeiladu ar y berthynas gref sy'n bodoli gyda rhieni a gofalwyr ac wedi cefnogi nifer helaeth ohonynt trwy ddosbarthu hamperi bwyd o fanc bwyd yr ysgol.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad a'r safle. Mae hyn yn cynnwys mannau awyr agored ysgogol fel coetir ac ardaloedd plannu. Mae’r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n effeithiol ac maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn synhwyrol i ddarparu ymyraethau penodol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae’r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth fuddiol i symud disgyblion ymlaen â'u dysgu.

Mae'r llywodraethwyr yn wybodus ac mae eu mewnbwn cyson yn creu gwelliannau systematig ar draws yr ysgol. Maent yn gefnogol i'r pennaeth ac yn ei ddwyn i gyfrif fel ffrindiau beirniadol. Mae’r pennaeth yn hysbysu'r llywodraethwyr yn fwriadus am ddysgu disgyblion a'r angen i wella'r ddarpariaeth, fel gwella’r caledwedd digidol.

Mae'r llywodraethwyr yn manteisio ar ddatblygu dealltwriaeth uniongyrchol o weithgareddau’r ysgol, sydd o fudd i greu gwelliannau. Er enghraifft, maent yn ymgymryd â theithiau dysgu ac yn trafod gwaith disgyblion i fesur ei ansawdd ochr yn ochr ag athrawon. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth werthfawr o arferion cyfredol yr ysgol. Mae’r llywodraethwyr yn monitro'r cyllid yn ddoeth ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, fel buddsoddiadau mewn offer anturus yn yr awyr agored.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu perthnasol ar gael i staff i gefnogi eu datblygiad proffesiynol, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Un o nodweddion cadarnhaol y broses hon yw bod y staff yn datblygu medrau y maent yn eu defnyddio'n effeithiol i wella deilliannau disgyblion. Enghraifft nodedig yw hyfforddiant i ddatblygu’r cynllunio trawsgwricwlaidd i gyfoethogi dysgu’r disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhannu arfer dda gydag ysgolion lleol ac mae hyn yn cefnogi gallu'r ysgol i wella'n barhaus. Mae’n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gymharu a rhannu eu heffeithiolrwydd â gweithwyr proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae'r staff yn derbyn cyfleoedd cynhyrchiol, sy'n datblygu eu gwybodaeth broffesiynol, eu haddysgu a'u medrau arwain. Mae'r diwylliant hwn o ddysgu proffesiynol parhaus yn creu darpariaeth ofalgar, sydd yn ei dro yn arwain at ddisgyblion brwdfrydig, sy’n cyflawni’n dda.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru) Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2022